## 2 DADANSODDIAD AMGYLCHEDDOL

***BETH YW EICH SEFYLLFA? - BETH SY'N RHAID I CHI EI GYFLAWNI A BETH YW'R SEFYLLFA YN FEWNOL?***

Mae'r adran hon yn edrych ar y project o ran y ffactorau 'allanol' a 'mewnol' a fydd yn effeithio ar y project. Nod yr adran hon yw sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r canlynol:

- 'Darlun mawr' y project.
- Nodi prif sbardunwyr y newid.
- Beth yw'r capasiti mewnol ar hyn o bryd a'r gallu i gyflawni amcanion y project.

| | **CANLLAWIAU BYR** |
|---|---|
| **ALLANOL** | Yn yr adran hon, mae'n rhaid i chi nodi ac ystyried y dylanwadau allanol ar y project, e.e. y prif sbardunwyr a'r budd-ddeiliaid.<br><br>**Cwestiynau i'w hystyried:**<br>• Beth yw sbardunwyr allanol y project?<br>• Beth yw disgwyliadau'r budd-ddeiliaid?<br>• Beth yw lefel boddhad budd-ddeiliaid ar hyn o bryd?<br>• Pa ffactorau y tu allan i'r project a fydd yn effeithio ar y project? |
| **MEWNOL** | Yn yr adran hon, mae'n rhaid i chi edrych ar yr hyn sy'n digwydd ar lefel ficro yn eich lle gwaith chi. Yn yr adran hon, mae'n rhaid i chi edrych ar yr hyn sy'n digwydd yng nghyd-destun prosesau a phobl.<br><br>**Cwestiynau i'w hystyried:**<br>• Yn fewnol, beth yw sbardunwyr y project a beth yw'r rhwystrau i'r project?<br>• Pa brosesau a systemau llif gwaith sydd ar waith ar hyn o bryd a fydd yn effeithio ar lwyddiant y project?<br>• Pa wybodaeth, sgiliau, gallu a chymhelliant sydd gan y staff sy'n rhan o'r project i sicrhau llwyddiant y project?<br>• Pa adnoddau sydd ar gael i gyflawni amcanion y project? |

| **ADNODDAU DADANSODDI DEFNYDDIOL:** | |
|---|---|
| PESTLE<br>SWOT<br>Dadansoddiad budd-ddeiliaid<br>Meincnodi | Cyfweliadau<br>Grwpiau ffocws<br>Dadansoddiad maes grym<br>Arolygon |